

## Diweddariadau

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau	Diweddarwyd gan
1.1	01-03-10	Adolygu'r polisi blaenorol	James Varty
2	01-10-15	Ailysgrifennu'r polisi	James Varty

### 1. CYFLWYNIAD

Mae Kaleidoscope yn darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, mae ei bencadlys yng Nghymru a mwyafrif ei wasanaethau'n cael eu cyflwyno yng Nghymru. Rydym yn cydnabod statws swyddogol y Gymraeg dan Fesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, ac na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r polisi hwn yn cydnabod y gofyn hwn ac yn gosod allan ein hymrwymiad i gynnwys mwy o Gymraeg yn ein trefniadaeth.

Yn bwysicaf oll, rydym yn credu y dylid galluogi defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yng Nghymru i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg os yw hynny'n ddewis ganddynt. Byddwn yn sicrhau cynnydd cyson tuag at wireddu'r uchelgais hwn; mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn gosod allan ein hymrwymiad cyfredol i'r defnydd o'r Gymraeg ac hefyd, lle'n briodol, yn gosod targedau i'n cynorthwyo i ddatblygu'r defnydd hwnnw.

Dylid dehongli'n rhesymol yr hyn rydym yn ymrwymo iddo yn y polisi hwn – sydd wedi ei gyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru neu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac wedi ei gyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau y mae gennym ni reolaeth neu ddylanwad drostynt.

### 2. DELWEDD GYHOEDDUS

#### 2.1 Arwyddion parhaol

Mae rhan fwyaf ein harwyddion parhaol yn ddwyieithog. Nid oes cyfieithiad Cymraeg o'r gair 'Kaleidoscope', a rhan amlaf nid oes mwy i gynnwys ein arwyddion parhaol na'r logo ac enw'r brand. Byddwn yn sicrhau bod pob un arwydd newydd parhaol yn hollol ddwyieithog erbyn y 1af o Ebrill 2016.

#### 2.2 Arwyddion dros dro

Mae rhan fwyaf ein harwyddion dros dro'n ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod pob un arwydd dros dro newydd yn hollol ddwyieithog ar ôl y 1af o Fedi 2016.

#### 2.3 Enw corfforaethol

Nid oes cyfieithiad Cymraeg o'r gair 'Kaleidoscope', ac o ganlyniad mae ein brand corfforaethol yn hollol ddwyieithog. Pan fydd Kaleidoscope yn rhan o dendr consortiwm yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod brandiau'r cytundeb/gwasanaethau sy'n deillio o'r proses hwnnw'n ddwyieithog.

#### 2.4 Deunyddiau ysgrifennu

Mae ein holl ddeunydd ysgrifennu'n ddwyieithog. Byddwn yn parhau i sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifennu newydd yn hollol ddwyieithog.

2.5 Cardiau busnes. Nid yw Kaleidoscope ar hyn o bryd yn defnyddio cardiau busnes. Bydd unrhyw gerdyn busnes a gynhyrchir yn y dyfodol, serch hynny, yn hollol ddwyieithog.

### 3. Y WEFAN A GWASANAETHAU DIGIDOL

#### 3.1 Y wefan

Mae ein gwefan yn cynnwys rhywfaint o Gymraeg. Mae cyswllt, serch hynny, rhwng y wefan a Google Translate; mae gwefannau gwasanaethau unigol tebyg ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Google Translate.

#### 3.2 Gwasanaethau digidol

Nid ydym ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaethau digidol. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw wasanaeth digidol a gynigir yn cynnwys dewis Cymraeg.

#### 3.3 Y cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn sicrhau bod pob cyfrwng cymdeithasol a ddefnyddir gan ein gwasanaethau'n cynnwys dewisiadau Cymraeg erbyn y 1af o Fedi 2016.

### 4. HYSBYSEBU A MARCHNATA

#### 4.1 Hysbysebu yn y wasg Gymreig

Byddwn yn sicrhau bod pob ymgyrch hysbysebu newydd yn y wasg brintiedig Gymreig yn hollol ddwyieithog.

#### 4.2 Hysbysebion recriwtio

Mae'r rhan fwyaf o'n hysbysebu recriwtio cyfredol yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod pob ymgyrch hysbysebu newydd yn y wasg brintiedig Gymreig yn hollol ddwyieithog erbyn y 1af o Ebrill 2016.

#### 4.3 Cyhoeddiadau printiedig

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg o bob un cyhoeddiad newydd printiedig a'n bod bob amser yn dosbarthu ac yn cynnig cyhoeddiadau yn y ddwy iaith a gyda'i gilydd.

#### 4.4 Deunyddiau arddangos a marchnata

Mae rhan fwyaf ein deunyddiau arddangos a marchnata yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod y cwbl o'n deunyddiau arddangos ac marchnata newydd neu ddiwygiedig yn ddwyieithog yng Nghymru erbyn y 1af o Fedi 2016.

#### 4.5 Negeseuon a recordiwyd o flaen llaw a chyhoeddiadau sain

Mae rhai o'n negeseuon sain a recordiwyd o flaen llaw yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod pob neges newydd ar beiriannau ateb ein prif linellau ffôn yn hollol ddwyieithog erbyn y 1af o Fedi 2016.

### 5. CYFATHREBU

#### 5.1 Cyfathrebu wyneb yn wyneb

Ni allwn ar hyn o bryd warantu gwasanaeth yn y Gymraeg ym mhob un o'n gwasanaethau, ond yn croesawu y defnydd o'r Gymraeg gan aelodau staff sydd â gallu yn yr iaith. Rydym yn annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn iaith Gwaith *Cymraeg* pan yn y gwaith. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gyda bathodynnau iaith Gwaith.



#### 5.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Bydd ein hymateb cyntaf i alwadau o'r tu allan yn gyfarchiad dwyieithog erbyn y 1af o Ebrill 2016. Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau ffôn dwyieithog yn y fath fodd ag i sicrhau bod ein staff yn gallu delio â, neu ailgyfeirio, galwadau y byddwn yn eu derbyn yn y Gymraeg, mewn modd broffesiynol, priodol a chwrtais erbyn y 1af o Fedi 2016.

#### 5.3 Gohebiaeth (ar bapur ac electronig)

Rydym ar hyn o bryd yn ysgrifennu at bobl yn y Saesneg yn unig, ond yn derbyn gohebiaeth yn y Saesneg a'r Gymraeg. Rydym yn ateb llythyrau Cymraeg yn yr iaith honno, neu pan fyddwn yn derbyn cais i'w hateb yn y Gymraeg. Rydym yn cydnabod rhyddid ein defnyddwyr gwasanaeth a'r rhanddeiliaid i ohebu â ni yn y Gymraeg, a byddwn yn ateb yn eu dewis iaith pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol bosibl. Rydym yn annog y staff sydd â'r gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg i osod logo iaith Gwaith ar eu gohebiaeth.

#### 5.4 Ffurflenni a dogfennau cyfrif

Mae ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif yn uniaith Saesneg. Byddwn yn adolygu ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif i weld a ydynt yn newis iaith y derbynydd, ac yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein ffurflenni os byddwn yn adnabod angen.

### 6. STAFF A'R GWEITHLE

#### 6.1 Asesu sgiliau iaith wrth recriwtio

Nid ydym ar hyn o bryd yn asesu'r gallu sydd ei angen yn y Gymraeg ar gyfer unrhyw swyddogaeth. Byddwn yn monitro anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth a'n rhanddeiliaid ac yn rhoi ystyriaeth i'r lefel gallu sydd ei angen yn y Gymraeg i gyflawni ambell swydd benodol.

#### 6.2 Cofnodi a datblygu sgiliau iaith ein staff

Mae bas data o weithwyr â sgiliau yn y Gymraeg wedi ei sefydlu gan ein tîm Adnoddau Dynol ac yn cadw cofnod o'r wybodaeth ganlynol:

- Beth yw eich prif iaith/iaith gyntaf ?  
*Y Saesneg            Y Gymraeg iaith arall*
- Ydych chi'n deall, siarad neu ysgrifennu'r Gymraeg (nodwch pob un perthnasol)  
*Yn deall Cymraeg llafar; yn gallu siarad Cymraeg; yn gallu darllen Cymraeg; yn gallu ysgrifennu Cymraeg; dim un o'r rhain*

Rydym yn rhannu gwybodaeth yn y gweithle ynghylch sgiliau pob gweithiwr yn y Gymraeg fel bod modd cyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg at berson priodol. Rydym yn cydnabod nad yw'r Gymraeg yng Nghymru i'w drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym yn cynnwys sgiliau yn y Gymraeg yn ein prosesau rheoli a hyfforddi staff, ac yn trefnu a/neu'n darparu hyfforddiant perthnasol ar gyfer y staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau yn y Gymraeg. Bydd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu'r Gymraeg. Byddwn yn cefnogi pob grŵp o staff sydd am ymgymryd â hyfforddiant achrededig, a bydd Kaleidoscope yn talu amdano ar yr amod bod yr aelodau staff yn cyfrannu o'u hamser eu hunain i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg.

### 6.3 Cyfathrebu mewnol

Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod staff a phob cwsmer i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd, fel a nodwyd ym Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, ac yn disgwyl i'r staff barchu dewis iaith eu cydweithwyr a chwsmeriaid. Byddwn yn cefnogi ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle.

### 6.4 Cyhoeddiadau mewnol

Mae rhai o'n cyhoeddiadau mewnol yn ddwyieithog. Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol lle bynnag y bydd yn rhesymol gwneud.

### 6.5 Meddalwedd Cymraeg

Rydym yn caniatáu i'n staff osod rhyngwyneb Cymraeg ar unrhyw feddalwedd y byddant yn ei ddefnyddio sydd â rhyngwyneb Cymraeg cydnabyddedig.

- 6.5.1 Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn wedi ei gefnogi ar y lefel uchaf. Bydd yr Aelod Bwrdd Stephen Davidson yn goruchwyllo gweithredu'r polisi ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Ar ben hynny, bydd pob gwasanaeth yn penodi Hyrwyddwr y Gymraeg a bydd hwnnw neu honno'n cefnogi gweithrediad y polisi hwn.

## 7. GWASANAETHAU A DDARPERIR AR EIN RHAN

- 7.1.1 Lle'n briodol byddwn yn cynnwys amodau ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cytundebau trydydd parti.

## 8. GWEITHREDU'R POLISI

### 8.1 Ymwybyddiaeth

Bydd y polisi hwn ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen, a bydd wedi ei osod ar ein gwefan yn y ddwy iaith erbyn y 1af o Ragfyr 2015. Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn copi o'r polisi hwn a chyfarwyddyd ynglŷn â'i ofynion.

### 8.2 Cynllunio

Bydd disgwyl i bob gwasanaeth Kaleidoscope sy'n gweithredu yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg erbyn mis Ebrill 2016. Fe ddylai'r cynllun osod allan sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau sydd wedi eu nodi yn y polisi hwn. Sylwer y garreg filltir trefniadol canlynol, sef erbyn y 1af o Fedi 2016, bydd gan bob gwasanaeth drefniadau mewn lle:

- i sicrhau bod dewis iaith pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gofnodi i bwrpasau monitro parhaus
- i ofyn wrth bob defnyddiwr gwasanaeth a fyddai'n well ganddo/ganddi dderbyn ei wasanaeth/gwasanaeth yn y Gymraeg
- i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n well ganddyn nhw dderbyn eu gwasanaeth yn y Gymraeg.

### 8.3 Adolygu'r polisi

Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn bob dwy flynedd, fan leiaf.



Prif weithredwr  
Hydref 2015

**Enw Hyrwyddwr Cymraeg y Gwasanaeth:**

*Mae'r cynllun yn diffinio cerrig milltir y proses. Dylid ychwanegu tasgau a chyfrifoldebau penodol i'r cynllun er mwyn cyrraedd y cerrig milltir.*

Maes gweithredu <b>Area of activity</b>	Nod <b>Objective</b>	Gweithredu <b>Implementation</b>	Gan bwy <b>By whom</b>	Yn ei le erbyn: <b>In Place by:</b>
Delwedd Gyhoeddus  <b>Public Image</b>	Arwyddion parhaol newydd i gyd yn hollol ddwyieithog			1af o Ebrill 2016
	Arwyddion dros dro newydd ar ôl y 1af o Fedi 2016 yn hollol ddwyieithog			1af o Fedi 2016
Gwefan a Gwasanaethau Digidol  <b>Website and Digital Services</b>	Holl gyfryngau cymdeithasol ein gwasanaethau i gynnwys dewisiadau Cymraeg			1af o Fedi 2016
Hysbysebu a Marchnata	Ymgyrchoedd recriwtio/hysbysebu			1af o Ebrill 2016

<b>Advertising and Marketing</b>	newydd yn y wasg brintiedig Gymreig yn hollol ddwyieithog			
	Y cwbl o'n deunyddiau newydd neu ddiwygiedig yn ddwyieithog			1af o Fedi 2016
	Pob neges sydd wedi ei recordio o flaen llaw (ar brif rifau ffôn ein gwasanaethau) yn hollol ddwyieithog			1af o Fedi 2016
<b>Communication</b>	Bydd ein ymateb cyntaf i alwadau ffôn allanol yn gyfarchiad dwyieithog			1af o Ebrill 2016
	Y staff yn gallu delio â, neu ailgyfeirio, galwadau a dderbynnir yn y Gymraeg mewn modd proffesiynol, priodol a chwrtais			1af o Fedi 2016
<b>Staff and the Workplace</b>	Sicrhau bod manylion pob aelod staff wedi eu cofnodi ar y bas data o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg a sefydlwyd gan y tîm Adnoddau Dynol			1af o Ebrill 2016
	Adnabod Hyrwyddwr y Gymraeg			1af o Ebrill 2016

<p>Cyflwyno gwasanaethau</p> <p><b>Service Delivery</b></p>	<p>Dewis iaith y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gofnodi i bwrpasau monitro parhaus</p>			<p>1af o Fedi 2016</p>
	<p>Gofyn wrth bob defnyddiwr gwasanaeth a fyddai'n well ganddo dderbyn ei wasanaeth yn y Gymraeg</p>			<p>1af o Fedi 2016</p>
	<p>Defyddwyr gwasanaeth sydd yn well ganddyn nhw dderbyn eu gwasanaeth yn y Gymraeg, i'w dderbyn yn y Gymraeg</p>			<p>1af o Fedi 2016</p>